PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 43 | Hydref 23, 2025 | 50c.

## Cyngor yr hydref

*Fel y nodwyd yn rhifyn diwethaf Y Tyst fe gynhaliwyd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Aberystwyth ar 10 a 11 Hydref. Dyma ychydig o flas yr hyn a drafodwyd yn yr Adrannau.*

### Adran Tystiolaeth

**Gwaith plant ac ieuenctid**

Yn dilyn penderfyniad yn yr Undeb i symud ymlaen gyda gwaith plant ac ieuenctid, fe nodwyd mai tywyll iawn oedd y sefyllfa o ran gweithgarwch plant ac ieuenctid ar hyn o bryd, ond bod cyfle gennym ni. Y gair 'cyfle' oedd yn cael ei adleisio. Sgwrsiwyd ynglŷn â'r posibilrwydd o gael gweithwyr rhanbarthol, yn hytrach nag un cydlynydd, er enghraifft, tri neu bedwar o weithwyr rhanbarthol fydd yn gweithio am ddau ddiwrnod yr wythnos. Ond yn eu babandod mae'r sgyrsiau, ac i symud ymlaen fe nodwyd y bydd gweithgor yn cael ei ffurfio i drafod y ffordd ymlaen. Fe nodwyd bod hyn yn gyfnod cyffrous i ni fel Undeb ac os nad ydych chi'n mynd â gair arall o'r adran adra' gyda chi ewch â'r un yma – cyfle.

**Cenhadaeth ddigidol**




Y prosiect diweddaraf ar waith yw recordio chwe chân gyda Chôr Caerdydd gan rai o gyfansoddwyr gorau Cymru. Mae hefyd albwm o ddeg cân sydd yn cynnwys caneuon ac emynau cyfoes a thraddodiadol. Mae prosiect llafar hefyd yn yr arfaeth, sef recordio traciau sain o'r pedair efengyl yn acen Sir Benfro, yn barod at Eisteddfod y Garreg Las. Bydd tîm digidol hefyd yn cael ei ffurfio i edrych ar y math o gymorth sydd ei angen fel bod ein heglwysi yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau digidol sydd ar gael gan yr Undeb.

**Y wefan**

Fe'n hysbyswyd gan y Parchg Carwyn Siddall y bydd ychwanegiad newydd i'r wefan sef adran Dysgu a Datblygu. Bydd modd i weld darlithoedd sydd wedi eu recordio. Gall y rhai sy'n derbyn hyfforddiant gofrestru fel eu bod yn gallu dilyn modiwlau penodol. Dymunwn yn dda i'r fenter newydd.

**Y Tyst**

Cawsom arweiniad ar fideo gan y Parchg Alun Tudur oedd yn ein hatgoffa mai llwyfan i'r eglwysi yw'r *Tyst*. Nododd Alun ar ran y tîm golygyddol ei ddiolchgarwch i bawb sy'n cyfrannu. Roedd yr adran yn gytûn o werth *Y Tyst* fel ein papur enwadol a chyfrwng ein tystiolaeth. Fe nodwyd hefyd ei fod yn bwysig nad ydym yn aros yn ein hunfan. Sut allwn ni ddatblygu'r *Tyst*? Sut bydd *Y Tyst* yn edrych mewn pum mlynedd ayyb. Mae trafodaeth hefyd gyda Cennad i drafod fformat newydd y tair tudalen cydenwadol.

**Dylan Rhys**

## Cyfiawnder pur a heddwch

Nid yw Trump wedi creu heddwch yn y Dwyrain Canol er gwaethaf ei ymffrost, er y mae wedi llwyddo i atal y lladd a'r newynu dros dro, a diolch i Dduw am hynny. Wedi i'r newyddion dorri bod yna gadoediad i fod yn Israel a Phalesteina, fe wnaeth Trump gyhoeddi'n frwd ar y cyfryngau cymdeithasol ei fod wedi creu heddwch. Yna fe gyflwynodd ddyfyniad o'r Gwynfydau sydd i'w weld yn y Bregeth ar y Mynydd, Mathew 5:9: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr ...'




**Ymhongar**

I Trump, fe ei hunan yw'r tangnefeddwr gwynfydedig sydd wedi creu heddwch (yr un gair yn y Groeg gwreiddiol sy'n cael ei gyfieithu i 'tangnefedd' a 'heddwch' yn y Gymraeg). Bydd hyn yn boblogaidd iawn ymhlith ei gefnogwyr efengylaidd a seionistaidd. Wrth iddo glochdar am ei 'lwyddiant hanesyddol' mae ef a'i gyd-imperialwyr yn paratoi at orfodi trefn gwbl anghyfiawn ar yr ardal drist honno. Trefn drefedigaethol fydd yn galluogi'r cyfoethog i ddod yn gyfoethocach ar drael y dioddefwyr

*parhad ar dudalen 2*

# Cyfiawnder pur a heddwch – parhad

tlawd, a hyn o dan y 'rhaglaw', sef y troseddwr rhyfel hwnnw, Tony Blair.

### Sychedu am gyfiawnder

Tra bod anghyfiawnder ni fydd heddwch; nid yw trefn anghyfiawn yn drefn heddychlon. Dywed Iesu hefyd: 'Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder ...' Ni ddyfynnodd Trump y gwynfyd hwnnw, na chwaith 'Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd'. Beth yw teyrnas nefoedd? Ateb Paul i'r cwestiwn yw: '... cyfiawnder a heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glân'. Pwyslais Iesu a'r ysgrythurau yw bod heddwch (tangnefedd) a chyfiawnder yn cyd-weithredu â'i gilydd; er enghraifft pwysleisia'r proffwyd Eseia '... bydd cyfiawnder yn creu heddwch, a'i effeithiau yn llonyddwch a diogelwch hyd byth.'

### Salm 85

Ystyriwch yr hyn a ddywed y salmydd yn y darn godidog hwn:

> Bydded imi glywed yr hyn a lefara'r Arglwydd DDUW,
> oherwydd bydd yn cyhoeddi heddwch
> i'w bobl ac i'w ffyddloniaid,
> rhag iddynt droi drachefn at ffolineb.
> Yn wir, y mae ei waredigaeth yn agos at y rhai sy'n ei ofni,
> fel bod gogoniant yn aros yn ein tir.
> Bydd cariad a gwirionedd yn cyfarfod,
> a chyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd.
> Bydd ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear,
> a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd.
> Bydd yr ARGLWYDD yn rhoi daioni,
> a'n tir yn rhoi ei gnwd.
> Bydd cyfiawnder yn mynd o'i flaen,
> a heddwch yn dilyn yn ôl ei droed."
>
> (Salm 85:8-13)

**Guto Prys ap Gwynfor**
(Trwy ganiatâd oddi ar ei dudalen Facebook)

# Adran cenhadaeth



Cafwyd cyfarfod bywiog o'r adran cenhadaeth, ble trafodwyd y canlynol o dan gadeiryddiaeth ardderchog Owain Davies.

### Prosiect Denman

Trafodwyd beth fyddai'r thema ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cytunwyd ar ddefnyddio'r nesaf yn y pum nod cenhadol sef, 'Ein hysgol Sul: Newid ein byd er gwell,' gyda'r isdeitl: 'Gweithio yn erbyn anghyfiawnder cymdeithas, herio trais ac ymroi i heddwch a chymod.' Trafodwyd hefyd, yn dilyn cwblhau defnyddio'r pum pwynt cenhadol y dylem edrych ar ail-frandio Prosiect Denman ar gyfer y dyfodol ac edrych o'r newydd ar gynlluniau ar gyfer ieuenctid.

### Hyfforddiant

Trafodwyd beth yw'r angen o ran technoleg ac o ran hyfforddiant technoleg yn ein heglwysi. Gofynnwyd i'r Undeb gynnal hyfforddiant ar gyfer eglwysi. Mae arian Arloesi a Buddsoddi ar gael i helpu eglwysi i fuddsoddi mewn technoleg, ac arian ar gael o fewn cyfundebau yn ogystal â ffynonellau eraill at ddefnydd symud eglwysi ymlaen yn y maes technegol a digidol. Trefnwyd cynnull tîm technoleg i edrych ar y posibiliadau ac i greu strategaeth ar gyfer cynnig arweiniad/hyfforddiant a chymorth i eglwysi, gweinidogion ac unigolion eraill.

### CWM

Bydd ymweliad gan y Parchg Jooseop Keum sef Ysgrifennydd Cyffredinol CWM (Council for World Mission) â Thŷ John Penri'n fuan. Bydd cyfarfod o holl Ysgrifenyddion Cyffredinol CWM yn digwydd ym mis Tachwedd hefyd. Daw arian MSP5 (Mission Support Programme) ar-lein flwyddyn nesa ac mae yna gynlluniau ar y gweill ar gyfer hynny.

### Derbyn eglwysi newydd

Trafodwyd y mater hwn yn dilyn penderfyniad a gafwyd ar lawr y Cyfarfodydd Blynyddol yn Nant Gwrtheyrn. Bydd angen trafod materion fel, beth sy'n gwneud eglwys i ddechrau, yna gweithio allan beth ddylai'r broses o dderbyn eglwys newydd fod a gweithio tuag at ei ffurfioli. I'r perwyl hwn, bydd angen cynnull gweithgor ynghyd i drafod pethau fel beth yw eglwys, ac yna bydd angen trafod y strwythur a'r broses o dderbyn eglwysi newydd. Bydd y gweithgor yn creu dogfen drafod gychwynnol i dynnu meini prawf a chamau ynghyd.

### Arloesi a Buddsoddi

Gwerthuso a gwella oedd bwriad y drafodaeth hon. Mae swm yr arian sydd ar gael wedi newid i £20,000 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd. Mae angen ail-frandio'r cynllun felly. Awgrymwyd enw newydd sef, Cynllun Cefnogi Cyfle (Mentro a Datblygu). Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn bwrw iddi i ailysgrifennu'r ffurflen gais a'r briff ar gyfer y cynllun hwn.

### Cenhadaeth

Trafodwyd yr hyn sydd ei angen o ran datblygu gwaith ieuenctid, plant a theuluoedd. Nodwyd y gallai penodi gweithiwyr rhanbarthol i gydlynu ac annog gweithgarwch teulu'n gymunedol. Gofynnwyd i'r Adran Tystiolaeth (yr adran sy'n arwain ar hyn) gynnull gweithgor er mwyn amlinellu a chreu cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol, bydd y gweithgor yn adrodd yn ôl i'r Cyngor nesaf.



Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 23 2025 RHIF 243

# Mae eich ffydd yn bwerus, ac felly hefyd eich ewyllys

**Mae Cymorth Cristnogol ac arweinwyr nifer o enwadau yn gofyn i gynulleidfaoedd ar hyd a lled y wlad ddechrau sgwrsio am adael rhoddion yn eu hewyllysiau.**

Mae'r ymgyrch Faith Will, a lansiwyd yn 2023, wedi tyfu a thyfu, ac rydym yn falch iawn o gyflwyno'r cynllun *Ewyllys Da | Faith Will* i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Rydym yn gwneud hynny ar y cyd â'n partneriaid – Yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – sy'n ymuno â'r ymgyrch eleni, ynghyd â'r Crynwyr, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Eglwys Loegr ac Eglwys yr Alban.

Mae *Ewyllys Da | Faith Will* felly'n ymgyrch eciwmenaidd unigryw ynghylch cymynroddion. Y bwriad yw cynyddu'r sgyrsiau am roddion mewn ewyllysiau a'i gwneud hi'n hawdd i gynulleidfaoedd sgwrsio am roddion o'r fath mewn ffordd gadarnhaol.

Rydym yn ymwybodol fod rhoddion mewn ewyllysiau'n gallu cryfhau tystiolaeth ein heglwysi lleol, drwy weithgarwch fel banciau bwyd, ceginau bwyd a grwpiau ieuenctid. Mae ein heglwysi wrth galon cymunedau, yn dod â phobl at ei gilydd ac yn cynnig cymorth i'r rhai sydd ei angen.

Yn yr un modd, yn fyd-eang, gwyddom fod rhoddion mewn ewyllysiau'n gefn i waith dyngarol Cymorth Cristnogol. Maen nhw'n atgyfnerthu gwaith ein partneriaid lleol yn rhai o'r cymunedau mwyaf bregus, gan ddarparu cymorth brys ac ymarferol mewn cyfnodau o argyfwng – boed yn wrthdaro neu'n drychineb naturiol. Yn ogystal â hynny, maen nhw'n cefnogi cynlluniau hirdymor, fel cynnig hyfforddiant i gymunedau amaethyddol i ddysgu dulliau ffermio newydd sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r rhoddion arbennig hyn yn ffordd bwerus o gynnal tystiolaeth ein heglwysi lleol a chefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. Ond rydyn ni'n gwybod y gall dechrau'r sgwrs hon fod yn anodd. Dyna pam mae Cymorth Cristnogol a'n partneriaid enwadol wedi mynd ati i lunio'r ymgyrch unigryw hon: *Ewyllys Da | Faith Will.*

Gall cynulleidfaoedd o unrhyw enwad defnyddio'r adnoddau sydd wedi'u paratoi gennym mewn gwasanaethau a chyfarfodydd i drafod rhoddion mewn ewyllysiau, a dysgu sut y gall haelioni pobl alluogi newid parhaol yn ein cymunedau lleol ac ar draws y byd. Diben yr ymgyrch arbennig hon yw ein helpu i feddwl sut y gall rhoddion mewn ewyllysiau fod yn fendith i'n teuluoedd, ein teulu eglwysig a'n cymdogion byd-eang.

**Cadw'r ffydd yn fyw**

Mae partneriaid *Ewyllys Da | Faith Will* yn credu y gall ewyllysiau adrodd stori bwerus am ffydd rhywun. Gall y dewisiadau a wnawn sicrhau bod ein gwerthoedd yn byw am genedlaethau i ddod.

Mae Elenid Jones wedi bod yn cefnogi Cymorth Cristnogol ers blynyddoedd maith ac wedi penderfynu gadael rhodd yn ei hewyllys. Drwy wneud hyn, dywed ei bod yn teimlo y bydd yn cadw ei ffydd yn fyw yn y byd ac na fydd yn marw gyda hi.

Esboniodd Elenid: "Fe fydda i'n dal i allu helpu i wneud y byd yn lle gwell i bobl fyw a chyflawni neges Iesu inni mewn ffydd, gobaith a chariad ar ôl i fy nyddiau ddod i ben.

"Byddwn i'n dweud bod mwy o angen yn ein byd heddiw nag erioed o'r blaen. Er bod cymaint o gyfoeth yn y byd, dydy e ddim yn cael ei rhannu'n deg. Mae cyfiawnder yn rhan bwysig iawn o'm ffydd ac o waith Cymorth Cristnogol."

Ychwanegodd: "Dwi'n cefnogi *Ewyllys Da | Faith Will* oherwydd ei bod yn ffordd o helpu'r eglwysi a'r gymuned i wneud eu gwaith o greu dyfodol gwell i bawb.

"Un bywyd sydd gyda ni i gyflawni'r hyn allwn ni, a thrwy adael rhodd yn fy ewyllys i Gymorth Cristnogol rydw i'n helpu pobl i allu byw bywydau cyflawn yn y dyfodol."



**Ffordd bwerus o roi**

Esboniodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: "Mae rhoddion mewn ewyllysiau eisoes yn trawsnewid cymunedau, ymhell ac agos. Mae *Ewyllys Da | Faith Will* yn ei gwneud hi'n hawdd i'ch eglwys neu eich cyfarfod ddechrau meddwl am hyn.

"Ar sail ymchwil Legacy Voice 2021 Cymorth Cristnogol, gwyddom fod 67 y cant o bobl sy'n mynd i'r capel wedi dweud nad oedd rhoddion mewn ewyllysiau erioed wedi'i grybwyll yn y cwrdd. Dyna pam mae *Ewyllys Da | Faith Will* mor bwysig. Mae'n ffordd i eglwys siarad am gymynroddion, a hynny'n aml am y tro cyntaf. Dychmygwch y gwahaniaeth enfawr y gallai cynnal mwy o'r sgyrsiau hyn ei wneud dros amser."

**Mae adnoddau amrywiol ar gael i'w lawrlwytho neu eu harchebu am ddim: ffilm ddwyieithog fer, canllaw addoli yn Gymraeg a Saesneg, a thaflenni dwyieithog ar gyfer cynulleidfaoedd. Ewch i: https://www.christianaid.org.uk/give/gifts-wills/ewyllys-da**

Mae Elenid wedi ei hysbrydoli gan yr angen digynsail yn y byd, gan wybod y bydd ei ffydd yn dal yn fyw er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn. Y tu ôl i bob rhodd sy'n cael ei rhoi mewn ewyllys mae yna stori – beth allai eich stori chi fod?

# Creu goleuni o dywyllwch

Erbyn hyn mae gŵyl Calan Gaeaf wedi tyfu i fod yn un o'r prif wyliau sy'n cael eu dathlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Yn fasnachol mae'n werth bron cymaint â chyfnod y Pasg i siopau. Fe welwn archfarchnadoedd yn llawn o fygydau a phob math o geriach wedi eu creu i achosi ofn a dychryn. Gŵyl Americanaidd sy'n pwysleisio'r tywyll a'r dychrynllyd ydi hi, gan orfoleddu mewn ofn a marwolaeth. Mae'r dathliadau yng Nghymru wedi cynyddu'n rhyfeddol dros y degawd diwethaf, ac mae'n siŵr gen i y bydd plant yn galw heibio gyda'r 'trick or treat'. A bydd llawer iawn o bartïon a disgos plant hefyd yn cael eu cynnal mewn pentrefi a threfi ledled Cymru.

Fel eglwysi rydym yn naturiol yn bryderus am yr effaith negyddol mae hyn yn ei gael ar fywydau plant, ac yn poeni hefyd dros yr henoed sy'n cael eu dychryn gan yr ymwelwyr dieflig. Ein hymateb ar y cyfan felly yw anwybyddu'r holl beth. Ond cofiwn hefyd fod y cyfnod yma yn Ŵyl yr Holl Saint, a bod llawer y gallwn ei wneud fel unigolion ac eglwysi i atgoffa ein cymdeithas mai gwell o lawer yw byw yn y goleuni na chuddio yn y tywyllwch.

**Parti Goleuni**

Mae dau adnodd gwerthfawr ar gael i alluogi eglwysi i drefnu digwyddiadau 'gwahanol' adeg Calan Gaeaf. Mae Scripture Union wedi darparu pecyn o adnoddau ar gyfer cynnal 'Parti Goleuni', sy'n llawn syniadau am gemau a gweithgareddau'n sôn am Iesu fel goleuni'r byd. Yn hytrach na dychryn plant a'u cyflwyno i bethau tywyll a dieflig, dyma adnodd sy'n ein helpu i gyflwyno newyddion da. Ceir yn yr adnodd (Saesneg) nifer o syniadau da ar sut i gynnal noson hwyliog gyda phlant, yn llawn crefft, gemau a gweithgareddau. Mae modd lawrlwytho'r pecyn am ddim o wefan www.scriptureunion.org.uk





**Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd.**
**(Ioan 1:5)**

Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://ysgolsul.com/?page_id=5728

**Parti Pwmpen**

Hefyd, mae mudiad World Vision wedi paratoi pecyn i eglwysi (yn Saesneg eto ar hyn o bryd) yn llawn syniadau ar sut i gynnal Parti Pwmpen. Mae 'na syniadau gwych sut i wneud llawer iawn o brojectau crefft allan o bwmpenni, pob un ohonynt â neges gadarnhaol am gariad Iesu. Ewch i pumpkinheroes.com i gael mwy o wybodaeth.

# Cyflwyno Medalau Gee yn Nhre-lech

Nos Sul, 12 Hydref, cafwyd cyfle i gyflwyno dwy fedal Gee i ddau o ffyddloniaid yr ysgol Sul yn ardal Tre-lech, a hynny mewn amgylchiad gwahanol i'r arfer.

Gan fod David Elfed Evans yn aelod yng nghapel Hermon ac Ann Evans yn aelod yng nghapel Blaen-y-coed, sylweddolodd Tom Defis, sy'n digwydd bod yn frawd i Ann, y byddai'r ddau ohonynt yn bresennol yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr y cylch yn Nhre-lech, ac felly y gellid cyflwyno'r medalau fel rhan o'r Gymanfa.

Bu'n ddiwrnod cyfan o ganu mawl, gyda chyfarfodydd yn y bore, y pnawn a'r hwyr, a hynny dan arweiniad afieithus Pat Jones. Erbyn cyfarfod y nos, roedd Aled Davies wedi cyrraedd yno ar ran




Cyngor Ysgolion Sul Cymru i gyflwyno'r ddwy fedal. Roedd Aled yn gyfarwydd iawn â Pat wrth gwrs gan ei bod yn gyn-aelod yn yr ofalaeth yn Chwilog cyn iddi symud ac ymgartrefu yng Nghaerfyrddin.

Yn dilyn eitem ddefosiynol, llywyddwyd y cyfarfod gwobrwyo gan Guto Prys ap Gwynfor a Tom Defis, cyn cyflwyno'r awenau i Aled. Diolchwyd i Elfed ac Ann am oes o wasanaeth ac am eu brwdfrydedd a'u hafiaith dros waith yr ysgol Sul.

Llongyfarchwyd hwy yn wresog gan ddymuno pob nerth a rhwyddineb iddynt eto i'r dyfodol.

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 2 – Ymson Hagar**

Ofynnodd neb imi sut ro'n i'n teimlo. Iddyn nhw, dim ond morwyn oeddwn i – rhywbeth dibris. Doedd neb yn gweld y gwaed yn llifo drwy fy ngwythiennau a'r dygnwch ym mêr f'esgyrn. Fe allwn fod wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear, hyd nes i Sarai sylweddoli fy mod yn ddefnyddiol iddi. Aeth at Abraham i esbonio a doedd dim dewis gen i; roedd y grym i gyd ganddyn nhw. Pan ddaeth y newydd mod i'n feichiog, corddodd eiddigedd Sarai ynddi, a chododd fy ffieidd-dra innau tuag ati hi. Roedd pob gair o'i genau fel cwyr poeth yn diferu drosta i.

Fedrwn i ddim aros yno, a rhedais – dianc, ymhell oddi wrthyn nhw, i'r anialwch. Cododd arswyd ynof. Roedd fy nhraed yn ddoluriau i gyd, fy ngwddw yn sych grimp, a'r hunllefau'n troi fel nadredd yn fy meddwl liw nos.

Ond yna, yn y bore, gwelais ffynnon. Wrth benlinio i ddrachtio'r dŵr, clywais lais dwfn a melfedaidd. A gwelais y person harddaf a welais erioed o fy mlaen. Dywedodd fy enw â goslef gynnes. Teimlais imi gael fy newis, fy nerbyn, a hynny dim ond drwy glywed fy enw! Gofynnodd imi o ble ro'n i wedi dod ac i ble ro'n i'n mynd; roedd ots gan hwn am y manylion. Tipyn o sioc oedd clywed ei gyngor wedyn i mi fynd yn ôl. Anodd oedd ystyried dychwelyd a gorfod wynebu'r treialon eto. Ches i ddim cadarnhad y byddai pethau'n berffaith iawn, ond rywsut ro'n i'n teimlo'n gryfach.

Ac yna teimlais fy ngwefusau'n agor i siarad, a hynny â hyder newydd. Gelwais ef yn *El-roi*, oherwydd ces fy ngweld. Wrth y ffynnon, rhwng dau le, yn y gwagle rhwng y ffiniau, ces f'adnabod gan Dduw. Pan nad oedd neb yn fy ngweld, edrychodd arnaf a'm codi fry o'r llwch.

Daeth fy mab, Ishmael, i'r byd, yn gariad i gyd. Eto, chwyrlïai eiddigedd Sarai o'm cwmpas. Gwyddai fy mod wedi rhoi rhywbeth gwerthfawr i Abraham, a'i bod hi wedi methu gwneud hynny. Tawedog oedd Abraham. Dyma oedd y sefyllfa am flynyddoedd, ond newidiodd pethau; daeth mab arall, Isaac, y tro hwn i Sara (clywais mai Duw roddodd yr enw newydd arni).

Bu popeth yn iawn am gyfnod, ond un diwrnod chwarddodd Ishmael yn wyneb Isaac. Collodd Sara ei thymer a chawsom ein halltudio i'r anialwch eto.

Roedd pethau bron ar ben arnom a llifeiriai fy nagrau i'r llwch wrth weld ein potel ddŵr yn wag. Rhoddais Ishmael i orwedd dan berth a disgwyl am y diwedd. Edrychais i fyny ar y sêr a daeth gwaedd o waelod fy mherfedd. Ac yna, fel o'r blaen, clywais lais – yr un llais cynnes eto, yn fy siarsio i beidio bod ag ofn. Agorwyd fy llygaid; gwelais ffynnon ac fe gawsom yfed o'r dŵr bywiol, eto!

Efallai na fydd f'enw'n gofiadwy i bawb. Efallai y daw canrifoedd o ferched ar fy ôl a'r rheini wedi gwneud mwy na mi, wedi llwyddo i gyflawni gwaith Duw yn well na fi. Ond … onid yw fy stori'n bwysig? Cofiwch fi felly fel yr alltud a gafodd ei derbyn, y gaethferch a gafodd ei gweld, y mewnfudwr a fu'n byw mewn ofn ond a gafodd le. Cofiwch fi – Hagar, yr un a gafodd ei chodi o'r anialwch gan y Duw sy'n gweld gwerth ym mhawb.

**Holi**

- Ydych chi'n teimlo trueni dros Hagar? Ydych chi'n gweld bod tebygrwydd rhwng ei sefyllfa hi a sefyllfa cannoedd o ferched (a dynion) sy'n byw mewn ofn heddiw?
- Ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, wedi gorfod dychwelyd i sefyllfa anodd rywdro? Sut brofiad oedd hwnnw?
- Oes yna 'angel' wedi eich 'gweld' chi ar ryw adeg arbennig yn eich bywyd ac wedi bod o gymorth? Ai Duw oedd yn gweithio drwy'r 'gweld' hwn?
- Roedd gan Dduw gynllun ar gyfer Hagar a Sara. Oes gan Dduw gynllun ar gyfer pawb ohonom – 'ni' a 'nhw'?
- Mae caethwasiaeth fodern yn rhywbeth real, hyd yn oed yn ein cymdeithas ni heddiw. Sut allwn ni wneud gwahaniaeth?

**Gweddi**

Mae cymaint o bobl yn teimlo'n anweledig ac yn dyheu am gael eu derbyn. Mae nifer fawr hefyd yn byw mewn ofn ac yn wynebu treialon enbyd. Rho inni'r doethineb i wybod sut mae bod o gymorth, a'r dewrder i fentro. Agor ein llygaid i weld yr annhegwch ac i wneud yr hyn allwn i hyrwyddo cyfiawnder i bawb.

Gwna ni'n gyfeillion triw i Iesu Grist; arwain ni i beidio aros yn ein hunfan yn dawedog, ond i rwydweithio cariad Duw mewn ffordd real yn ein byd ni heddiw.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Hydref – Dim rhaglen**

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Wyn Edwards

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 26 Hydref, am 12:00yp**
Sul Adferiad – oedfa dan ofal Denzil John, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# WRTH Y LLYW #5

### Y Cyngor

Cyfarfu Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Llety Parc, Aberystwyth (10 a 11 Hydref). Digwydd hyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Gwaith y Cyngor yw llywio bywyd a chenhadaeth ein Hundeb, a hynny trwy gyfrwng y pedair Adran: Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang; yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth; Dinasyddiaeth Gristnogol; Tystiolaeth. Cafwyd trafodaeth eang a phwysig ar sut i ledaenu a dyfnhau ein cenhadaeth, ein gwasanaeth a'n gweinidogaeth, gan gynnal ac annog ein gilydd fel eglwysi: deuddydd o bwyllgorau a phwyllgora.



Y mae dau fath o bobl ar bwyllgorau fel rheol. Y bobl sy'n bwysig i bwyllgor, a'r bobl y mae pwyllgor yn bwysig iddynt hwy. Y cyntaf yw'r rhai, os daw cyfle iddynt, sydd â rhywbeth i'w ddweud ganddynt, a'r ail yw'r rhai, cyfle neu beidio, sy'n siŵr o ddweud rhywbeth.

Ymdrech y dosbarth cyntaf yw dod â gwaith i'r pwyllgor, ond ymgais yr ail ddosbarth yw pwyllgoreiddio pob gwaith. Yn sgil ymdrechion y dosbarth cyntaf uchod, bu gofyn arnom i godi sawl gweithgor. Bu crychu talcen a chodi eiliau; do, ond pam? Beth yw Gweithgor ond Is-bwyllgor? Os oes cymal mewn enw sydd yn fwy camarweiniol na'i gilydd yn ein hiaith, y cymal *Is* yn ei berthynas â *Pwyllgor* yw hwnnw. Pwy a feiddiodd ei gamenwi felly? Sawl gwaith mewn pwyllgor y daeth trafodaeth ddi-ben-draw i derfyn trwy ei throsglwyddo yn hwylus i Is-bwyllgor (neu'r Gweithgor). Pwyllgor dal y babi yw'r Is-bwyllgor. Yr Is-bwyllgor/Gweithgor sydd yn datrys y mater, yn ateb y gofyn, yn cynnig ffordd ymlaen, ac yna am ei drafferth yn cael dychwelyd i'r pwyllgor mawr – i'r union rhai a fethodd a datrys y mater yn y lle cyntaf.

Pe bawn ond yn Unben! Dw i'n aml yn dychmygu cymaint yn well buasai'r byd pe bawn ond yn cael fy ffordd. Ie, pe bawn yn Unben buaswn yn gorchymyn bod unrhyw un a gymero yn ei ben i ymaelodi â phwyllgor – i fwrw i waith gweinyddu – yn treulio o leiaf pum mlynedd ar yr Is-bwyllgor. Buasai hynny'n cynnig cyfle iddi/iddo weithio i fyny, yn hytrach na edrych yn gall wrth gynnig bod angen trosglwyddo'r mater i Is-bwyllgor.

Pob clod i'r Is-bwyllgorau! Henffych well chi wirfoddolwyr y Gweithgor! Hebddynt/heboch, ni fyddai na seremoni, na sioe ... nag Undeb o eglwysi gwerth sôn amdanynt.

### Cyfundeb

Cefais gyfle i ymweld â Chyfundeb De-ddwyrain Cymru – fy Nghyfundeb – nos Fercher 8 Hydref. Cyfarfu'r Cyfundeb yn eglwys fy nghofal, Minny Street, Caerdydd. Beth yw Cyfundeb? Oes ddyfodol, neu ddiben i Gyfundeb? I ganfod ateb, rhaid bwrw golwg yn ôl ac o'n cwmpas, a hynny'r un pryd! Edrych yn ôl i'r Diwygiad Methodistaidd; cyfnod Howell Harries, Daniel Rowland a William Williams, Pantycelyn; edrych yn ôl i Azariah Shadrach, John Elias, Christmas Evans a Williams o'r Wern. Cyfnod y codi capeli wedyn; Cymanfaoedd Pregethu a'r torfeydd yn tyrru i oedfaon awyr agored, tair pregeth. Ceir adroddiadau lu yng nghyfnodolion y cyfnod; tebyg bod ychydig o benrhyddid bardd yn rhain neu Gymanfa ryfeddol oedd honno ym Mlaen-y-coed yn 1822, gyda 60 o weinidogion yn bresennol, ynghyd a 60 pregethwr arall, a 27,000 yn y gynulleidfa! Sefydlwyd y traddodiad o



gyfarfodydd tri-misol – y Cwrdd Chwarter.

Mewn ymgais i ysgafnhau'r baich cyllidol a gododd yn sgil codi addoldai sefydlwyd yr Ymgyrch Dileu Dyledion. Ffurfiwyd 'ardaloedd' drwy Gymru gydag eglwysi yn cynorthwyo ei gilydd i gasglu arian. Tebyg mai o'r cyfarfodydd tri-misol a'r 'ardaloedd' y deilliodd y cysyniad o Gyfundebau. Yn 1872 adeiladwyd ar drefn y Cyrddau Chwarter trwy ffurfio Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Edrych yn ôl i 1900, 71 o eglwysi yng Nghyfundeb Dwyrain Morgannwg; 1930, 72 o eglwysi; 1960, 77 o eglwysi ... 2015, 27 o eglwysi, 2024, 20 o eglwysi, a 2025, 28! Mae'r naid o 20 i 28 yn ddim byd ond canlyniad cyfuno'n ddiweddar Cyfundeb Dwyrain Morgannwg a Chyfundeb Gogledd Morgannwg a Mynwy.

Och a gwae yw ein hanes fel Cyfundeb cystal cyfaddef; OCHneidio a GWAEthygu sydd anorfod heb ein bod yn troi llinell o emyn 597 yn *Caneuon Ffydd* yn weddi ac yn arwyddair i ni: *cymhwysa ni i her ein hoes*. Bwrw golwg yn ôl ac o'n cwmpas, a hynny'r un pryd? Yn ôl, ie ac o'n cwmpas, i weld gwaith cyfredol ein Harglwydd byw a bendigedig. Pan sylweddolwn nad nyni sydd yn cymhwyso Iesu i fympwyon ein hoes, ond yn hytrach, mai Ef sydd yn ein cymhwyso i her ein hoes, y down, fel eglwysi lleol, ac o'r herwydd fel Cyfundebau, ac o'r herwydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn llawer mwy cenhadol na chynhaliol; yn llawer mwy enillgar na chadwraethol.

### Trigain mlynedd

Dydd Sul 12 Hydref, fy mraint oedd cael ymuno yn nathliadau'r Parchg Gareth Morgan Jones yng nghapel yr Alltwen: 60 mlynedd yn y Weinidogaeth. Ni ddylem fod yn esgeulus o'r fath ddathlu; rhaid dathlu 60 mlynedd yn y Weinidogaeth! Yn, a thrwy, ac er waethaf pob newid, diolch am y bobl hynny y gellid dibynnu arnynt i ddal ati, i ddal ati i ddal ati, ie am 60 mlynedd. Dibynna'r eglwys leol, Cyfundeb, Adran, Cyngor ar bobl ddibynadwy. Pobl y gallwn ddibynnu arnynt i fod yn bresennol, ac mae sawl haen o ystyr i hynny. Yn bresennol mewn gwasanaeth a chyfarfod, yn bresennol – ymwybodol – o'n diffygion ac o'n rhinweddau; beth sydd yn gweithio, beth nad yw'n gweithio, beth all weithio'n well. Pobl ddibynnol ydym: yn ddibynnol ar Grist, yn ddibynnol ar ein gilydd; yn bobl y gall eraill ddibynnu arnom. *90% of success*, meddai Woody Allen *is turning up* ... Daliwn ati – ti a fi – i ddal ati i ddal ati i droi fyny; i fod yn ddibynadwy.

**Owain Llŷr Evans**

Barn Annibynnol

# Adlewyrchu'r Crëwr

Yda chi'n hoffi celf? A dwi ddim yn sôn am ymweld ag oriel neu fwynhau arddangosfa. Yda chi'n mwynhau creu gan ddefnyddio'ch dwylo? Creu drwy arlunio neu wnïo? Neu ddefnyddio deunyddiau gwahanol i greu cerflun neu fodel? Pan fydd rhywun yn gofyn yr un cwestiwn i fi, fy ateb cyntaf bob tro ydy: NA! Ac ia, NA mewn prif lythrennau! Os oes cyfle i fod yn greadigol drwy ganu neu chwarae offeryn neu ddawnsio, neu hyd yn oed actio – yna dwi ym mlaen y ciw. Ond gofynnwch i fi gymryd rhan mewn gweithdy celf ac fe welwch chi fi fel arfer yn ei heglu hi am y drws. Dwi'n gwybod fod pobl yn dweud fod gwneud celf a chrefft yn ein helpu ni i ymlacio neu yn ein helpu i gael persbectif newydd ar bethau. Ond i fi, creu 'stress' ydy meddwl am wneud celf. Mae gen i ryw syniad beth dwi am ei greu, ond tydi'r canlyniad byth yr un peth. A byddaf wedi straffaglu efo deunyddiau nad oes gen i'r un syniad be i wneud efo nhw ac mae'r cyfan yn mynd yn ormod. Yda chi'n teimlo fy lefelau 'stress' i'n codi o'r dudalen?

### Gweithdy Celf

Ond heddiw, mi fûm i mewn gweithdy celf. Doedd gen i ddim dewis bod yno i fod yn onest – roedd yn rhan o ddiwrnod staff Gweithwyr Cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Roedd sesiwn y prynhawn yn cael ei arwain gan Lois Adams sy'n artist cymunedol Cristnogol. Mae'n teimlo yn angerddol dros ddefnyddio ei thalent fel artist er mwyn dod â chymunedau at ei gilydd ond yn bennaf i gyflwyno Crist. Meddai ei gwefan:

> Rhoddodd Duw hi mewn dau fyd – un droed ar dir artistig a'n diwylliant creadigol, a'r droed arall yn ei Eglwys, teulu'r ffydd. Braint Lois yw dod ochr yn ochr ag eglwysi yng Nghymru a chynnig adnoddau creadigol llawn dychymyg wrth iddynt geisio cysylltu â'u cymunedau lleol a'u diwylliant… Mae buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o bobl greadigol, a gweithio o fewn cymuned yn un o werthoedd Lois.

### Ar lun a delw

Cyn cychwyn ar y sesiwn ymarferol, rhoddodd Lois gyflwyniad i ni ar le creadigrwydd o fewn ein ffydd Gristnogol a sut mae bod yn greadigol yn gallu ein helpu i fod yn agored; meddwl, calon ac enaid i Dduw, Iesu Grist a'r Ysbryd Glân. Dywedodd, wrth i ni feddwl am Dduw'r Creawdwr, cawn ein hatgoffa fod Duw wedi creu ein byd a'r bydysawd ac wedi ein creu ni ar ei ddelw ei hun. Os ydym wedi ein creu ar lun a delw Duw, sydd ei hun wedi creu'r byd – yna mae'n naturiol ein bod ni hefyd yn fodau creadigol. Arweiniodd ni ar daith gan ein cyflwyno i artistiaid sydd wedi cysylltu eu celf a'u creadigrwydd â'u ffydd. Roedd yn faes hollol newydd i mi, a dysgais gymaint gan Lois sy'n cyflwyno mewn ffordd mor fyrlymus a diddorol.

### Paent ar Wydr



Ond yna, daeth y frawddeg: 'A rŵan, beth am i ni gyd greu rhywbeth?' Gan fod Lois yn gymeriad sydd mor hwyliog ac yn llawn anogaeth a gan iddi sôn nad oeddem yn chwilio am berffeithrwydd, roeddwn yn teimlo ychydig yn fwy parod i fentro. Y dasg oedd 'argraffu' gan ddefnyddio paent ar wydr a deunyddiau i greu patrwm. Roedd cyfarwyddiadau Lois yn glir a theimlwn fy hun yn ymlacio wrth i mi feddwl y gallwn 'wneud hyn'! Roedd paent tri lliw, ac felly byddai tair haen o liw i fy llun. Roedd rhywbeth braf am rowlio'r paent yn drwchus ar fy sgwâr gwydr cyn mynd i geisio tynnu'r paent mewn mannau mewn ffordd artistig gan ddefnyddio deunyddiau gwahanol. Yna roedd rhaid rhoi'r gwydr ar ddarn o bapur cyn ei wasgu i lawr yn ofalus cyn codi'r darn gwydr i ddangos y patrwm. Roedd angen ailadrodd y broses gyda'r ddau liw arall. Cymerais fy amser, a mwynhau'r broses. Roedd rhai yn gallu creu llun penodol wrth dynnu paent i ffwrdd, ond roeddwn yn gwybod fod hynny yn rhy uchelgeisiol i mi! Felly dyma ganolbwyntio ar greu rhyw fath o batrwm gyda'r lliwiau. Y lliw olaf oedd du ac roeddwn yn poeni yn fawr y byddwn yn difetha fy ngwaith caled efo cysgod tywyll, ond awgrymodd Lois i mi beidio bod rhy drwm gyda'r paent du ac i geisio cael ambell linell yma ac acw. Wrth fod yn or-ofalus, sylwais nad oedd llawer o ddu ar y llun o gwbl – ond roeddwn mor hapus o weld y gwaith terfynol.

### Dal at y cyfarwydd

Ydy o am ennill unrhyw wobrau? Wrth gwrs nad ydy o! Ond doedd hynny ddim yn bwysig. Y peth pwysig oedd fy mod wedi cael fy atgoffa gan Lois o bwysigrwydd bod yn greadigol, ac i mi yn benodol heddiw, o bwysigrwydd rhoi cynnig ar bethau newydd a bod yn agored i hynny. Roedd yn golygu hefyd fy mod wedi gadael fy man cyfforddus am ychydig. Mae hynny o hyd yn anodd ar y dechrau, ond drwy ddal ati mae posib dysgu gymaint am symud ymlaen mewn ffydd. A'r syndod mwyaf i mi oedd fy mod wedi mwynhau creu mewn ffordd wahanol – do mi wnes fwynhau. Ac mae hynny yn rhywbeth pwysig i'w gofio hefyd; fod camu allan o'r cyfarwydd yn gallu bod yn hwyl! Mae dysgu sgil newydd; gwneud rhywbeth mewn ffordd newydd yn gyffrous. Mae hon yn neges i ni gyd yn ein cyd-destun eglwysig cyfoes lle cawn ein hunain yn aml yn dal at y cyfarwydd am fod hynny'n fwy cyfforddus, er y gall fod yn ein dal yn ôl ar adegau. Felly, beth am roi cynnig ar rywbeth newydd? Efallai, fel fi, cewch eich synnu ar yr ochor orau!

**Mererid Mair**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Aelodau Newydd

Mewn oedfa gymun yng Nghapel Blaen-y-coed, Caerfyrddin, derbyniwyd tri o oedolion ifanc yn gyflawn aelodau. Croeso gwresog i Erin, Leusa ac Evan a phob bendith i'r dyfodol. Roedd cyfle hefyd i anrhegu tri aelod ifanc arall, sef Cathrin, Nerys a Cai. Gwelir y criw ifanc yn y llun isod gyda'r Parchedig Gareth Ioan (chwith) a Delme Phillips (dde), un o ysgrifenyddion y capel.

**Nerys Davies**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Gwerth gwystlon mewn pob rhyfel

Mae'r arferiad o gymryd gwystlon er mwyn gorfodi'r gelyn i ymddwyn yn ôl dymuniad y rhai sy'n eu cipio yn un hynafol iawn. Yn yr Hen Destament, dywedir bod Joas brenin Israel, ar ôl trechu brenin Jwda a difrodi Jerwsalem, wedi mynd â holl gyfoeth y Deml 'ynghyd â thrysorau'r palas a gwystlon' cyn dychwelyd i Samaria. (2 Cronicl 24:24). Yng ngherdd y bardd Taliesin am frwydr Argoed Llwyfain yn y 6ed ganrif, mae brenin Seisnig o'r enw Fflamddwyn yn herio Urien Rheged: 'A ddodynt fy ngwystlon, a ŷnt barawd?' Mae Owain ab Urien yn gweiddi na fyddant fyth, cyn arwain byddin Rheged i ymosod ar y Saeson gan ladd Fflamddwyn a'i lu yn y frwydr.

## Dialedd neu elw

Roedd hi'n arferiad gan frenhinoedd Lloegr yn yr Oesoedd Canol i gymryd plant tywysogion ac uchelwyr Cymru fel ernes y byddent yn cadw'r heddwch. Ar achlysuron pan dorrwyd yr heddwch, cafodd nifer o'r plant bach eu harteithio'n greulon a'u lladd mewn dialedd gan y Brenin John a'i debyg. Ar y llaw arall, fe allai cadw gwystl gwerthfawr yn fyw ac yn iach ddwyn elw i'r sawl a'i carcharodd. Pan wnaeth Owain Glyndŵr ddal ei hen elyn y Barwn Grey o Ruthun yn 1402, fe'i cadwodd yn wystl tan i'r Brenin Harri IV dalu swm, a fyddai'n cyfateb i £4m heddiw, i'w ryddhau.




## Gwystlon cyfoes

Nid yw pobl Israel yn ystyried milwyr sy'n cael eu dal gan y gelyn yn 'garcharorion rhyfel.' Gwystlon a herwgipiwyd ydynt, a dylid gwneud pob ymdrech i'w rhyddhau. Yn 2011, cafodd milwr o'r enw Gilad Shalit ei ryddhau ar ôl tair blynedd fel carcharor yn gyfnewid am 1,000 o Balesteiniaid. Yn ogystal â sioc y lladdfa ar 7 Hydref 2023, roedd arswyd yn Israel bod 251 o bobl wedi cael eu cipio'n wystlon i Gaza. Ers hynny mae mwy na'u hanner nhw wedi marw. Yn Rhagfyr 2023, llwyddodd tri gwystl ifanc i ddianc, ond wrth gerdded tuag at filwyr Israel o dan faner wen, cawsant eu saethu'n farw 'trwy ddamwain' gan y milwyr hynny.

## Llwyddiant Hamas?

Oni bai bod Hamas wedi llwyddo i rwystro Israel rhag achub y gwystlon byddai lluoedd arfog grymus y wlad honno wedi gorchfygu Gaza yn llwyr a byddai'r rhyfel wedi dod i ben ers tro. Ond fe wnaeth sefyllfa'r gwystlon alluogi Hamas i ymestyn y rhyfel dros gyfnod o ddwy flynedd, ac achosi rhwyg yn y farn gyhoeddus yn Israel. Arweiniodd hynny at orfodi Israel i gytuno i gadoediad, yn bennaf oherwydd y pwysau mewnol ac allanol cynyddol yn erbyn ymddygiad llywodraeth Netanyahu. Y trobwynt oedd ymosodiad Israel ar safle yn Qatar, un o wledydd cyfoethocaf y byd sy'n allforio olew a nwy, gan gynnwys 20% o nwy Prydain ar ffurf LNG (Nwy Naturiol Hylifedig) trwy borthladd Aberdaugleddau. Fe wnaeth yr ymosodiad gythruddo'r Arlywydd Trump, gan ddwyn pwysau enfawr ar Israel i gytuno i'r cadoediad.

## Pris y gwystlon

Fel rhan o'r ddêl, cafodd 2,000 o Balesteiniaid eu rhyddhau o garchardai Israel, ond mae'r pris a dalwyd gan drigolion Gaza y tu hwnt i amgyffred, gyda dros 68,000 o bobl wedi cael eu lladd, a chartrefi, ysgolion ac ysbytai'n yfflon. Mae'r dicter ymhlith nifer yn Gaza yn erbyn Hamas am ysgogi'r uffern yma yn sgil ymosodiad 7 Hydref eisoes yn achosi ymladd mewnol. Yn y cyfamser, mae llywodraeth Israel yn cyhuddo Hamas o dorri amodau'r cadoediad trwy fethu dychwelyd cyrff 19 o wystlon marw (wrth i mi lunio'r erthygl yma) gan gynnwys rhai a laddwyd ar 7 Hydref.

Anodd gweld nad yw hyn ond yn gadoediad yn unig yn y gwrthdaro hir a gwaedlyd yn y Dwyrain Canol. Mae'n arbennig o dorcalonnus bod y casineb oesol yn digwydd mewn gwlad lle cerddodd Duw ei fyd ym mherson Iesu Grist, yr hwn a roddodd ei hun yn wystl fel cyfrwng i ryddhau pawb ymhob oes.

**Alun Lenny**

# Diwrnod y Gweinidogion

**Dydd Llun, 10 Tachwedd 2025**
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**








__Amserlen__

| | |
|---|---|
| 10:00 | Te / Coffi a Defosiwn |
| 10:30 | Gair gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol |
| 10:45 | 'Dietrich Bonhoeffer: gweld y byd drwy lygaid ffydd' |
| 11:00 | 'Dod i adnabod Dietrich Bonhoeffer' – *Parchg Gwilym Tudur* |
| 12:00 | Trafodaeth ar ddyfyniadau Dietrich Bonhoeffer |
| 12:30 | Cinio |
| 13:15 | Arddangosfa 'Aduniad: Beiblau Mawr Harri'r VIII a Thomas Cromwell' |
| 14:30 | "Bydd Oedfa'r Sul nesaf dan ofal ChatGPT ac A.I.": Y defnydd o ChatGPT ac AI – *Parchg Dylan Rhys Parry* |
| 15:30 | Defosiwn i gloi'r diwrnod |
| 15:45 | Paned, cacen ac ymadael |

*Ym mlwyddyn cofio 80 mlynedd ers marwolaeth y gweinidog a'r diwinydd Dietrich Bonhoeffer, down i'w adnabod yn well, a deall ei ymateb i sefyllfaoedd ac amgylchiadau penodol yn ei ddydd, cyn ystyried ein hymateb ni i ddatblygiadau'r byd cyfoes.*




__Cofrestru__
Cofrestrwch yn brydlon erbyn **dydd Gwener, 24 Hydref** os gwelwch yn dda.
**01792 795888**
**carwyn@annibynwyr.cymru**
*Darperir cinio i bawb.*
*Nodwch unrhyw anghenion dietegol wrth gofrestru.*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*